# Ehangu Cwmpas Cynllun Masnachu Allyriadau'r DU: Morwrol – Ymateb Interim

Ymateb interim ar y cyd Llywodraeth y DU, Llywodraeth yr Alban, Llywodraeth Cymru ac Adran Amaethyddiaeth, Amgylchedd a Materion Gwledig Gogledd Iwerddon

Gorffennaf 2025

# Cynnwys


Cwmpas y Cynllun 5
- Diffiniad o daith ddomestig 5
- Cynnwys allyriadau methan ac ocsid nitrus 7
- Gweithgarwch morwrol wedi'i eithrio 9

Cyfundrefn reoleiddio 10
Gofynion Monitro, Adrodd a Dilysu 12
- Pwynt rhwymedigaeth 16

Y Camau Nesaf 19

# Cyflwyniad

Yn ymgynghoriad *Ehangu Cwmpas Cynllun Masnachu Allyriadau'r DU: Morwrol*[1], a gyhoeddwyd ym mis Tachwedd 2024, ymgynghorodd Awdurdod CMA y DU ar fanylion gweithredu technegol mewn perthynas ag ehangu Cynllun Masnachu Allyriadau presennol y DU (CMA y DU) i gynnwys allyriadau o'r sector morwrol. Roedd hyn yn dilyn Ymateb yr Awdurdod i'r ymgynghoriad *Datblygu CMA y DU* [2], a gyhoeddwyd ym mis Gorffennaf 2023, lle gwnaethom gadarnhau'r ehangu i allyriadau o forwrol domestig, yn ogystal â bwriad i weithredu'r ehangu hwn o 2026.

Roedd ymgynghoriad mis Tachwedd 2024 wedi'i rannu'n ddwy adran:

- **Adran A: Gweithredu CMA y DU ar gyfer Morwrol.** Yn yr adran hon, gwnaethom ymgynghori'n fanwl ar weithredu'r cynllun a darparu mwy o fanylion am y newidiadau a gyhoeddwyd yn Ymateb blaenorol yr Awdurdod. Roedd hyn yn cynnwys datgan y byddai'r trothwy yn 5000 tunelledd gros (GT) a chynnig adolygu'r trothwy hwn yn y dyfodol, yn ogystal â darparu rhagor o fanylion ar ddiffiniad o daith ddomestig, esemptiadau, addasiad i'r cap, a'r gofynion monitro, adrodd a dilysu (MRV).
- **Adran B: Ehangu pellach posibl ar CMA y DU i allyriadau morwrol ychwanegol.** Yma, gwnaethom ymgynghori ar unrhyw ehangu pellach posibl i'r gyfundrefn forwrol. Roedd hyn yn cynnwys cynnig i adolygu'r trothwy erbyn 2028 ac i ystyried sut y gellid dwyn cyfran o allyriadau rhyngwladol i'r cwmpas yn y dyfodol, pe bai gweithredu gan y Sefydliad Morwrol Rhyngwladol (IMO) yn cael ei ohirio neu'n profi'n annigonol.

Yn dilyn yr ymgynghoriad, rydym wedi cwblhau rhai elfennau o'r ehangu morwrol. Felly, rydym yn cyhoeddi Ymateb interim yr Awdurdod sy'n cynnwys rhai o'n penderfyniadau polisi i alluogi gweithredwyr morwrol i baratoi i gydymffurfio â gofynion CMA y DU, ac i gynorthwyo rheoleiddwyr i gynnal gweithgareddau cynefino wrth baratoi ar gyfer gweithredu.

Mae'r ddogfen hon yn cadarnhau penderfyniadau ynglŷn â'r diffiniad o daith ddomestig gan gynnwys allyriadau mewn porthladdoedd (y cyfeirir atynt fel allyriadau wrth angorfa yn yr ymgynghoriad blaenorol), y nwyon tŷ gwydr perthnasol, ac eithrio gweithgareddau penodol, yn ogystal ag ynglŷn â'r gyfundrefn reoleiddio, gofynion MRV, a'r diffiniad o'r gweithredwr morwrol. Byddwn yn cyhoeddi Ymateb llawn yr Awdurdod i'r ymgynghoriad, gan gynnwys cadarnhau'r penderfyniadau ynglŷn â phob cynnig polisi arall, cyn gynted â phosibl.

Gwnaethom ymrwymiad i ehangu'r cynllun yn 2026 yn yr ymgynghoriad. Hoffem egluro bwriad **Awdurdod CMA y DU i lansio cyfundrefn forwrol CMA y DU ar 1 Gorffennaf 2026. Bydd hyn yn cynnwys cwmpasu teithiau domestig a'r holl allyriadau mewn porthladdoedd yn y DU, yn unol â'r manylion technegol a nodir yn yr Ymateb Awdurdod hwn.** Fel y cadarnhawyd yn Uwchgynhadledd y DU-UE, dylai'r DU a'r UE weithio tuag at sefydlu cyswllt rhwng marchnadoedd carbon. Roedd y Ddealltwriaeth Gyffredin[3] yn nodi, yn amodol ar negodiadau, ein bod yn bwriadu ehangu CMA y DU i gynnwys allyriadau o deithiau rhyngwladol. Byddwn yn nodi cynigion pellach maes o law ynghylch sut rydym yn bwriadu

[1] https://www.gov.uk/government/consultations/uk-ets-scope-expansion-maritime-sector
[2] https://www.gov.uk/government/consultations/developing-the-uk-emissions-trading-scheme-uk-ets
[3] https://www.gov.uk/government/publications/ukeu-summit-key-documentation/uk-eu-summit-common-understanding-html

ehangu i allyriadau rhyngwladol, gan gynnwys y dyddiad ar gyfer yr ehangu hwn, trwy hysbysiad i randdeiliaid CMA.

Er na wnaethom ofyn cwestiwn penodol am amseriad ehangu CMA y DU i’r sector morwrol, nodwn fod llawer o randdeiliaid wedi cyfeirio at hyn yn eu hymatebion. Yn benodol, nododd rhanddeiliaid bryderon na fyddai digon o amser i ddeall eu rhwymedigaethau cydymffurfio o dan CMA y DU a gwneud paratoadau i fodloni'r rhwymedigaethau hyn.

Rydym yn rhagweld y bydd cyhoeddi'r penderfyniadau cynnar hyn yn cynorthwyo gyda pharatoadau gweithredwyr a chynefino â’r rheoleiddio, yn ogystal â dechrau'r gyfundrefn forwrol ar 1 Gorffennaf 2026, a fydd yn helpu i leddfu'r pryderon uchod gan ddiwydiant.

# CMA y DU Morwrol – Ymateb Interim

Mae'r Awdurdod yn cadarnhau’r canlynol:

- Bydd ehangu CMA y DU i’r sector morwrol yn digwydd o 1 Gorffennaf 2026, felly bydd yr holl rwymedigaethau cydymffurfio yn gymwys o'r dyddiad hwn. Bydd blwyddyn gyntaf y cynllun yn rhedeg rhwng 1 Gorffennaf 2026 a 31 Rhagfyr 2026. Bydd blynyddoedd y cynllun yn y dyfodol yn rhedeg rhwng 1 Ionawr a 31 Rhagfyr.
- Yr allyriadau sydd o fewn cwmpas yw'r rhai o fordeithiau domestig (a ddiffinnir fel y rhai rhwng porthladdoedd y DU, gan gynnwys y rhai sy'n dechrau ac yn gorffen yn yr un porthladd) ac o fewn porthladdoedd y DU.
- Byddwn yn eithrio gweithgarwch morwrol anfasnachol y Llywodraeth.
- Byddwn yn cynnwys allyriadau methan ac ocsid nitrus.
- Bydd y darpariaethau rheoleiddio sy'n bodoli ar gyfer sectorau sydd eisoes wedi'u cwmpasu gan CMA y DU yn gymwys i weithredwyr morwrol lle bo hynny’n berthnasol.
- Rydym wedi darparu rhagor o fanylion am y gofynion monitro, adrodd a dilysu (MRV) i gefnogi ehangu CMA y DU i'r sector morwrol.
- Yr endid sy’n gyfrifol am gydymffurfio â CMA y DU yw Perchennog Cofrestredig llong, ac eithrio lle mae’r Cwmni Rheoli Diogelwch Rhyngwladol (ISM) wedi cymryd cyfrifoldeb yn briodol yn lle hynny.

## Cwmpas y Cynllun

### Diffiniad o daith ddomestig

**Crynodeb o Gynigion yr Ymgynghoriad**

Yn yr ymgynghoriad, gwnaethom amlinellu y bydd y diffiniad o daith ddomestig at ddibenion CMA y DU yn cynnwys teithiau sy’n teithio o un porthladd yn y DU i borthladd arall yn y DU, yn ogystal â theithiau sy’n dechrau ac yn gorffen yn yr un porthladd yn y DU. Bydd y diffiniad yn cynnwys yr holl allyriadau o fewn taith rhwng y porthladdoedd y gelwir ynddynt, gan gynnwys wrth angori ar y teithiau hyn, ar y môr ac ar strwythurau ar y môr.

Gwnaethom hefyd ddatgan ein bod yn bwriadu cynnwys yr holl allyriadau mewn porthladdoedd, sy’n cynnwys allyriadau mewn angorfa ym mhorthladdoedd y DU ac allyriadau o symudiadau o fewn porthladdoedd y DU. Bydd hyn yn cynnwys allyriadau mewn porthladdoedd o longau sy’n teithio yn ddomestig, yn rhyngwladol neu’r ddau.

**Cwestiynau**

1. Ydych chi'n cytuno â'r diffiniad arfaethedig o daith ddomestig? (Ydw/Nac ydw) Esboniwch eich ymateb, gan roi tystiolaeth os yw hynny'n bosibl.

2. Ydych chi'n cytuno y bydd y diffiniad arfaethedig yn dal yr holl allyriadau domestig perthnasol? (Ydw/Nac ydw) Esboniwch eich ymateb, gan roi tystiolaeth os yw hynny'n bosibl.
3. Ydych chi'n rhagweld y diffiniad hwn yn arwain at unrhyw fylchau neu gymhellion gwrthdro? (Ydw/Nac ydw) Esboniwch eich ymateb, gan roi tystiolaeth os yw hynny'n bosibl.
4. Ydych chi'n cytuno â chynnwys allyriadau wrth angorfa mewn porthladd yn y DU o longau sy'n ymgymryd â theithiau domestig a rhyngwladol? (Ydw/Nac ydw) Esboniwch eich ymateb, gan roi tystiolaeth os yw hynny'n bosibl.

**Crynodeb o'r Ymatebion i'r Ymgynghoriad**

Ymatebodd 64 o randdeiliaid i gwestiwn un, ar y diffiniad o daith ddomestig. O'r rheini, roedd 46 (72%) yn cytuno â'r diffiniad a gynigiwyd gan yr Awdurdod. Er gwaethaf y gefnogaeth gref o blaid y diffiniad, cododd rhai rhanddeiliaid bryderon ynghylch cynnwys llongau ar y môr (9 ymateb) ac roedd galw am eglurder ynghylch allyriadau wrth angori a diffinio dechrau a diwedd taith. Pwysleisiodd sawl rhanddeiliad hefyd yr angen i gyd-fynd â diffiniad CMA yr UE.

Roedd 53 o ymatebion i gwestiwn dau, ynghylch a fyddai'r diffiniad yn dal yr holl allyriadau perthnasol. Roedd barn yn fwy rhanedig ar hyn, gyda 28 (53%) o ymatebwyr yn cytuno a 24 (45%) yn anghytuno ac 1 (2%) yn ansicr. O'r rhai a anghytunodd, roedd saith ymatebydd yn cefnogi cynnwys llongau o dan 5000GT. Roedd pum rhanddeiliad yn cefnogi cynnwys teithiau i Diriogaethau Dibynnol ar y Goron a Thiriogaethau Tramor.

Ymatebodd 54 o randdeiliaid i gwestiwn tri, ynghylch a fyddai'r diffiniad yn arwain at fylchau neu gymhellion gwrthdro. Ymatebodd 35 (65%) o randdeiliaid y byddai, ac ymatebodd 18 (33%) o randdeiliaid na fyddai. O'r rhain, dywedodd 22 ymatebydd y gallai fod chwarae â’r diffiniad arfaethedig neu y byddai'n arwain at newid llwybrau teithio. Yn benodol, cododd pum rhanddeiliad bryderon y gallai peidio â chynnwys Tiriogaethau Dibynnol ar y Goron a Thiriogaethau Tramor arwain at osgoi trwy Ynys Manaw. Cododd tri rhanddeiliad bryderon y byddai newid mewn dulliau teithio i fathau eraill o drafnidiaeth. Er nad yw'n uniongyrchol berthnasol i'r cwestiwn, cododd chwe rhanddeiliad bryderon y byddai'r trothwy o 5000GT yn cymell y defnydd o longau islaw'r trothwy er mwyn osgoi cael eu cynnwys. Cododd chwe ymatebydd bryderon y byddai'r cynllun yn gorgyffwrdd â mesur IMO yn y dyfodol, neu gynlluniau rhyngwladol eraill.

Roedd 75 o ymatebion i gwestiwn pedwar, ar gynnwys allyriadau wrth angorfa. Roedd 45 (60%) o ymatebwyr yn cytuno â chynnwys yr allyriadau hyn, gyda 28 (37%) yn anghytuno a 2 (3%) yn ansicr. O'r rhai oedd yn cefnogi eu cynnwys, roedd 40 o ymatebwyr yn cefnogi cynnwys yr holl allyriadau wrth angorfa (h.y. p'un a fydd yn teithio yn ddomestig ac yn rhyngwladol). Roedd 14 ymatebydd o’r farn y byddai hyn yn annog defnyddio technoleg/seilwaith glân a dywedodd 8 ymatebydd y bydd yn gwella ansawdd aer. O'r rhai nad oeddent yn cefnogi'r cynnig hwn, mynegodd 25 bryderon ynghylch cynnwys allyriadau wrth angorfa o longau sy'n teithio yn rhyngwladol, a mynegodd 17 bryderon am orgyffwrdd â mesur IMO yn y dyfodol a chynlluniau rhyngwladol eraill. Cododd eraill bryderon yn seiliedig ar yr her o sicrhau bod pŵer ar y lan ar gael oherwydd capasiti a chysylltiad â’r grid.

**Ymateb yr Awdurdod**

Mae'r Awdurdod yn bwriadu bwrw ymlaen â'r diffiniad arfaethedig o daith ddomestig, a fyddai’n cynnwys teithiau o un porthladd yn y DU i borthladd arall yn y DU a theithiau sy'n dechrau ac

yn gorffen yn yr un porthladd yn y DU. Bydd y diffiniad yn cynnwys yr holl allyriadau o fewn taith, gan gynnwys wrth angori ar y teithiau hyn, ar y môr ac ar strwythurau ar y môr. Rydym yn cydnabod y cafwyd galwadau am eglurder ynghylch allyriadau wrth angori a diffinio dechrau a diwedd taith, a byddwn yn mynd i'r afael â'r rhain mewn canllawiau yn y dyfodol.

Nodwyd cefnogaeth rhanddeiliaid dros gynnwys Tiriogaethau Dibynnol ar y Goron a Thiriogaethau Tramor. Er nad ydym yn bwriadu cynnwys yr allyriadau hyn wrth lansio yn 2026, byddwn yn parhau i gymryd rhan mewn proses o fonitro ac adolygu'r cynllun yn barhaus ac efallai y byddwn yn ystyried hyn yn y dyfodol, yn enwedig os bydd y risgiau o chwarae â'r diffiniadau yn cael eu gwireddu, er nad oes gennym dystiolaeth ar hyn o bryd i gefnogi'r syniad y bydd peidio â chynnwys Tiriogaethau Dibynnol ar y Goron a Thiriogaethau Tramor yn arwain at chwarae neu gymhellion gwrthdro.

Mae'r risg o chwarae oherwydd y trothwy 5000GT hefyd wedi'i nodi. Byddwn yn cymhwyso CMA y DU i longau o 5000GT ac uwch o ddechrau'r cynllun yn 2026. Bydd yr adborth o'r ymgynghoriad a'r penderfyniadau polisi terfynol ynghylch adolygu'r trothwy hwn yn y dyfodol yn cael eu cynnwys yn yr ymateb llawn i'r ymgynghoriad hwn. Byddwn yn cymryd mesurau i fonitro chwarae, ac rydym yn cadw'r hawl i wneud newidiadau i'r cynllun yn seiliedig ar ymddygiadau a arsylwir.

Rydym hefyd yn cydnabod bod pryderon gan ddiwydiant ynghylch cynnwys llongau ar y môr yn y cynllun, yn enwedig y risg o chwarae, gan ddibynnu ar sut mae hyn yn cael ei ddiffinio. Byddwn yn nodi rhagor o fanylion ar hyn yn yr ymateb llawn i'r ymgynghoriad hwn.

Rydym hefyd yn bwriadu bwrw ymlaen â chynnwys yr holl allyriadau mewn porthladdoedd o fewn porthladdoedd y gelwir ynddynt yn y DU, o longau sy'n teithio yn ddomestig, yn rhyngwladol neu'r ddau. Mae allyriadau mewn porthladdoedd yn y DU yn cynrychioli 46% o gyfanswm allyriadau morwrol domestig y DU a bydd cynnwys y rhain yn sicrhau eu bod yn ddarostyngedig i'r un cymhelliant i ddatgarboneiddio ag y mae allyriadau teithiau. Rydym yn cydnabod pryder rhanddeiliaid ynghylch gorgyffwrdd â Fframwaith Sero Net IMO a byddwn yn parhau i ystyried cwmpas CMA y DU wrth i'r mesur hwn ddatblygu.

Gwnaethom hefyd ofyn cwestiynau ynghylch cynnwys rhai allyriadau o deithiau rhyngwladol. Byddwn yn ymateb i'r rhain yn ymateb llawn yr Awdurdod i'r ymgynghoriad hwn.

## Cynnwys allyriadau methan ac ocsid nitrus

**Crynodeb o Gynigion yr Ymgynghoriad**

Gwnaethom gynnig cynnwys allyriadau methan ac ocsid nitrus, yn ogystal ag allyriadau carbon deuocsid. Byddai hyn yn cynnwys allyriadau sy'n deillio o hylosgi a llithriant[4] y nwyon hyn. Byddai allyriadau methan ac ocsid nitrus yn cael eu cyfrifo ar sail gyfwerth â charbon deuocsid (CO2e), yn seiliedig ar eu Potensial Cynhesu Byd-eang (GWP).

[4] Mae allyriadau sy'n dianc ac allyriadau llithriant yn cael eu hachosi gan danwydd sydd ddim yn cyrraedd siambr hylosgi y ffynhonnell allyriadau, neu am nad ydynt yn cael eu defnyddio gan y ffynhonnell allyriadau am nad ydynt wedi'u hylosgi, neu wedi'u hawyru neu eu gollwng o'r system.

Mae'r mesur GWP a gynigir yn unol â safonau adrodd rhyngwladol fel a ganlyn: GWP o 28 y dunnell o fethan a GWP o 265 y dunnell o ocsid nitrus[5].

**Cwestiynau**

13. Ydych chi'n cytuno â chynnwys allyriadau sy'n deillio o hylosgi neu lithriant methan ac allyriadau ocsid nitrus o weithgarwch morwrol o fewn y cynllun? (Ydw/Nac ydw) Esboniwch eich ymateb, gan roi tystiolaeth os yw hynny'n bosibl.

14. Ydych chi'n cytuno â'n cynnig ar sut i gyfrifo allyriadau nwyon tŷ gwydr gweithredwr ar sail gyfwerth â charbon deuocsid (CO2e)? (Ydw/Nac ydw) Esboniwch eich ymateb, gan roi tystiolaeth os yw hynny'n bosibl.

### Crynodeb o'r Ymatebion i'r Ymgynghoriad

Cawsom 61 o ymatebion i gwestiwn 13, ar gynnwys allyriadau methan ac ocsid nitrus. Roedd 54 (89%) o'r ymatebion yn cytuno â'n cynnig, gyda 5 (8%) yn anghytuno a 2 (3%) yn ansicr. Thema gyffredin ymhlith ymatebion y rhai sy'n cefnogi'r cynnig oedd cyd-fynd â CMA yr UE a chynlluniau rhyngwladol eraill. Soniodd saith rhanddeiliad hefyd y byddai cynnwys methan yn sicrhau na fyddai cymhelliad i ddefnyddio nwy naturiol hylifol (LNG) fel tanwydd amgen, a oedd yn cytuno â'n sail resymegol dros gynnig y newid hwn.

Cafwyd llai o ymatebion i gwestiwn 14 (50 o ymatebwyr), ar gyfwerthedd allyriadau methan ac ocsid nitrus â charbon deuocsid. Roedd 36 (72%) o ymatebwyr i'r cwestiwn hwn yn cefnogi'r cynnig, gydag 8 (16%) yn anghytuno a 6 (12%) yn ansicr. Cyfeiriwyd at gyd-fynd â dull CMA yr UE fel ffactor allweddol gan 12 o'r rhai a gefnogodd y cynnig. Galwodd naw rhanddeiliad am ddefnyddio'r GWP diweddaraf o'r Panel Rhynglywodraethol ar y Newid yn yr Hinsawdd, sy'n uwch na'r rhai yn ôl y dull a gynigiwyd yn yr ymgynghoriad.

### Ymateb yr Awdurdod

Mae'r Awdurdod wedi penderfynu bwrw ymlaen â chynnwys allyriadau methan ac ocsid nitrus o fewn y cynllun. Bydd hyn yn deillio o hylosgi neu lithriant y nwyon hyn fel rhan o weithgarwch morwrol. Bydd cynnwys y nwyon hyn yn cryfhau uchelgais hinsawdd y cynllun, yn ogystal ag osgoi cymhellion gwrthdro i newid i danwydd gydag allyriadau carbon deuocsid is ond allyriadau methan neu ocsid nitrus uwch, sydd â GWP uwch na charbon deuocsid. Roedd hyn yn farn a rennir gan ddiwydiant.

Rydym hefyd yn cadarnhau y bydd methan ac ocsid nitrus yn cael eu cyfrifo ar sail CO2e gan ddefnyddio'r GWP ar gyfer pob nwy. Yn yr ymgynghoriad, gwnaethom gynnig defnyddio'r ffigurau a nodir ym Mhumed Adroddiad Asesu (AR5) y Panel Rhynglywodraethol ar y Newid yn yr Hinsawdd (IPCC). Darperir rhagor o fanylion ar gyfrifo allyriadau o'r nwyon hyn mewn canllawiau.

Rydym yn cydnabod yr adborth cymysg ynghylch y defnydd o ffigurau GWP yn seiliedig ar yr AR5, gyda rhai rhanddeiliaid yn galw am ddefnyddio'r rhai a restrir yn y Chweched Adroddiad Asesu (AR6). Ar ôl ystyried yn drylwyr, rydym yn cadarnhau mai'r ffigurau GWP fydd y rhai yn

[5]Mae GWP pob nwy yn cael ei ddiffinio fel ei ddylanwad cynhesu mewn perthynas â $CO_2$ dros gyfnod o 100 mlynedd ac mae'n dod o dabl 8.A.1 (heb adborth carbon-hinsawdd) o Working Group 1 of the IPCC Fifth Assessment Report: Climate Change 2013 (AR5).

yr AR5. Rydym yn cydnabod bod y ffigurau GWP hyn wedi'u diweddaru yn yr AR6. Fodd bynnag, er mwyn sicrhau cysondeb wrth adrodd a chyfrifo, byddwn yn parhau i ddefnyddio gwerthoedd o'r AR5 yn unol â chanllawiau adrodd rhyngwladol o dan Gytundeb Paris[6].

Bydd adrodd a chyfrifo allyriadau nwyon tŷ gwydr traws-lywodraethol hefyd yn parhau i ddefnyddio ffigurau AR5, gan gynnwys yr holl bolisïau morwrol eraill. Bydd y dull o adrodd ar allyriadau nwyon tŷ gwydr o dan CMA y DU yn cael ei adolygu yn y dyfodol, gan gynnwys ochr yn ochr ag adolygiadau rhyngwladol o fetrigau cyffredin i sicrhau cysondeb[7].

## Gweithgarwch morwrol wedi'i eithrio

### Crynodeb o Gynigion yr Ymgynghoriad

Gwnaethom gadarnhau ein bod yn bwriadu eithrio gweithgarwch morwrol anfasnachol y Llywodraeth (GNCMA) o CMA y DU. Gwnaethom ddarparu rhestr nad yw'n gynhwysfawr o weithgareddau yr ydym yn eu hystyried sy'n cyd-fynd â'r term hwn. Gwnaethom gynnig y bydd y gweithgarwch hwn yn cael ei eithrio'n llawn o'r cynllun.

Gwnaethom hefyd ymgynghori ar randdirymiadau pellach o'r cynllun. Bydd manylion y cynigion hyn, ymatebion i'r ymgynghoriad a phenderfyniadau terfynol yr Awdurdod yn cael eu cynnwys yn Ymateb llawn yr Awdurdod i'r ymgynghoriad, a fydd yn cael ei gyhoeddi maes o law.

**Cwestiynau**

15. A oes gennych unrhyw farn ar eithrio gweithgarwch morwrol anfasnachol y Llywodraeth, neu'r gweithgarwch a gwmpesir gan y term hwn? (Ydw/Nac ydw) Esboniwch eich ymateb, gan roi tystiolaeth os yw hynny'n bosibl.

### Crynodeb o'r Ymatebion i'r Ymgynghoriad

Roedd 34 o ymatebwyr i gwestiwn 15. Nid oedd y cwestiwn yn gofyn a oedd ymatebwyr yn cytuno â'r eithrio arfaethedig, felly nid yw'n bosibl rhoi dadansoddiad o'r ymatebion a oedd o blaid neu'n gwrthwynebu'r cynigion hyn, ond roedd ymatebwyr yn gefnogol yn gyffredinol. Roedd rhai ymatebion yn galw am eithrio pellach. Sylwch y bydd y rhain yn cael eu hystyried a bydd ymateb iddynt yn Ymateb llawn yr Awdurdod i'r ymgynghoriad hwn.

Roedd dau ymatebydd yn anghytuno â'r eithrio, gan nodi y dylai llongau'r Llywodraeth "arwain trwy esiampl". Fodd bynnag, nid oedd gan y rhan fwyaf o'r ymatebwyr unrhyw broblem gyda'r cynnig. Daeth thema i'r amlwg o ran pwysigrwydd strategaeth datgarboneiddio gadarn ar gyfer gweithgarwch llongau'r Llywodraeth, ochr yn ochr â'r eithrio. Nododd rhai ymatebwyr fod

[6] Penderfyniad -/CMA.1 Moddau, gweithdrefnau a chanllawiau ar gyfer y fframwaith tryloywder ar gyfer gweithredu a chymorth y cyfeirir ato yn Erthygl 13 o Gytundeb Paris (Adran D). Cynhadledd y Partïon sy'n gwasanaethu fel cyfarfod y Partïon i Gytundeb Paris. https://unfccc.int/sites/default/files/resource/cp24_auv_transparency.pdf

[7] Cytunodd UNFCCC i barhau i ystyried metrigau cyffredin yng nghyfarfod yr Is-gorff ar gyfer Cyngor Gwyddonol a Thechnolegol 66 yn 2027. https://unfccc.int/process-and-meetings/transparency-and-reporting/reporting-and-review/methods-for-climate-change-transparency/common-metrics

parhau gyda’r ffordd y mae llongau'r Llywodraeth yn cael eu trin mewn cyfundrefnau eraill, gan gynnwys CMA yr UE, yn synhwyrol.

**Ymateb yr Awdurdod**

Mae’r Awdurdod yn gallu cadarnhau y bydd gweithgarwch morwrol anfasnachol y Llywodraeth yn cael ei eithrio o CMA y DU. Mae hyn yn gyson â'r dull a ddefnyddiwyd gyda hedfan yn CMA y DU. Cawsom adborth defnyddiol mewn perthynas â'r math o weithgareddau y dylid eu heithrio, megis y rhai a wneir gan gyrff Llywodraeth hyd braich.

Er mwyn sicrhau bod yr eithrio hwn yn cwmpasu'r holl weithgareddau priodol, bydd yr Awdurdod yn symud o derm ymbarél ar gyfer yr eithrio hwn ac yn lle hynny bydd yn darparu rhestr o weithgareddau mewn deddfwriaeth i amlinellu gweithgareddau sydd wedi'u heithrio o'r cwmpas. Bydd rhagor o fanylion yn cael eu hamlinellu mewn deddfwriaeth, ond bydd hyn yn cynnwys y canlynol:

- Gweithgareddau milwrol
- Gweithgareddau Tollau / Llu’r Ffiniau
- Gweithgareddau'r heddlu
- Gweithgarwch gwylwyr y glannau a gweithgarwch chwilio ac achub eraill y Llywodraeth
- Llongau brys/meddygol
- Gweithgareddau ymchwil y Llywodraeth
- Gweithgarwch cyffredinol yr Awdurdod Goleudai

Bydd y gweithgareddau hyn wedi'u heithrio'n llawn o CMA y DU, sy'n golygu na fydd unrhyw ofyniad o safbwynt adrodd nac ildio. Bydd rhagor o fanylion am y gweithgareddau sydd wedi'u cynnwys yn yr eithrio hwn yn cael eu hamlinellu yn Ymateb llawn yr Awdurdod maes o law.

Mae disgwyl o hyd i longau sy'n cyflawni'r gweithgareddau hyn ddatgarboneiddio eu gweithrediadau yn unol ag ymrwymiadau sero net ledled y DU, ac mae'r Awdurdod yn nodi adborth am bwysigrwydd strategaeth ddatgarboneiddio gadarn ar gyfer llongau'r Llywodraeth. Mae'r Swyddfa Adeiladu Llongau Genedlaethol (NSO) wedi nodi piblinell adeiladu llongau traws-lywodraethol dros gyfnod o 30 mlynedd i adeiladu dros 150 o longau newydd. Yn y Strategaeth Datgarboneiddio Morwrol[8], ymrwymodd Llywodraeth y DU i weithio gyda'r NSO i ddatblygu cyfleoedd i gaffael llongau carbon isel a gwneud y mwyaf o uchelgais gwyrdd.

Nid yw manylion unrhyw randdirymiadau pellach wedi’u cynnwys yn Ymateb interim yr Awdurdod hwn. Bydd ymatebion i'r ymgynghoriad a phenderfyniadau terfynol yr Awdurdod ar randdirymiadau eraill yn cael eu cynnwys yn Ymateb llawn yr Awdurdod i'r ymgynghoriad, a fydd yn cael ei gyhoeddi maes o law.

# Cyfundrefn reoleiddio

**Crynodeb o Gynigion yr Ymgynghoriad**

[8] https://www.gov.uk/government/publications/maritime-decarbonisation-strategy

Yn yr ymgynghoriad, amlinellodd yr Awdurdod ei fod yn bwriadu cymhwyso'r un darpariaethau rheoleiddio sy'n bodoli ar gyfer sectorau sydd eisoes yn CMA y DU i'r sector morwrol hefyd. Mae hyn yn cynnwys y diffiniad o flwyddyn y cynllun, y dyddiadau cau ar gyfer adrodd ac ildio, sef 31 Mawrth a 30 Ebrill yn y drefn honno, a'r gofyniad i wneud cais am gymeradwyo cynllun monitro allyriadau. Bydd angen i weithredwyr morwrol hefyd benodi dilysydd annibynnol, wedi'i achredu gan Wasanaeth Achredu'r DU (UKAS), i ddilysu eu hadroddiad allyriadau blynyddol.

O ran gorfodi, gwnaethom gynnig, yn gyffredinol, y byddem yn adlewyrchu darpariaethau sydd eisoes yn berthnasol i'r sawl sy'n cymryd rhan yn CMA y DU, gan gynnwys cosbau sifil.

O ran neilltuo gweithredwyr morwrol i reoleiddiwr CMA y DU, rydym eto yn cynnig adlewyrchu'r dull a ddefnyddiwyd ar gyfer gweithredwyr awyrennau. Bydd gweithredwyr morwrol yn cael eu neilltuo i reoleiddiwr yn seiliedig ar leoliad eu man preswylio neu gyfeiriad cofrestredig. Ar gyfer y gweithredwyr hynny sydd wedi'u cofrestru yn un o bedair gwlad y DU, y rheoleiddiwr ar gyfer y diriogaeth honno fydd yn gyfrifol am eu rheoleiddio[9]. Ar gyfer gweithredwyr nad oes ganddynt swyddfa gofrestredig na man preswylio yn y DU, Asiantaeth yr Amgylchedd fydd yn gyfrifol am eu rheoleiddio.

**Cwestiynau**

25. Ydych chi'n cytuno â'r darpariaethau rheoleiddio arfaethedig, megis blwyddyn y cynllun, dyddiadau cydymffurfio, cynnwys a chyfundrefn gosbau'r cynllun monitro allyriadau, gofynion gweithredwyr, neu'r rheoleiddiwr perthnasol? (Ydw/Nac ydw) Esboniwch eich ymateb, gan roi tystiolaeth os yw hynny'n bosibl.

**Crynodeb o'r Ymatebion i'r Ymgynghoriad**

Ymatebodd 46 o randdeiliaid i gwestiwn 25. Roedd barn ar y cwestiwn hwn yn rhanedig. Roedd 21 (46%) o'r ymatebwyr yn cytuno â'r cynigion, 17 (37%) yn anghytuno, ac roedd 8 (17%) yn ansicr.

Soniodd ychydig o dan hanner yr ymatebwyr am gyd-fynd â dyddiadau cau CMA yr UE. Cyfeiriodd rhanddeiliaid at drefniadau contractiol cymhleth fel y rheswm dros ffafrio cyd-fynd â dyddiadau cau cydymffurfio CMA yr UE. Dywedasant y byddai'n anodd adennill arian gan y parti perthnasol (oherwydd trefniadau siartro amrywiol trwy gydol y flwyddyn) a phrynu lwfansau yn y mis o ffenestr rhwng adrodd ac ildio.

Roedd 11 o ymatebwyr yn cefnogi cyd-fynd â gweddill CMA y DU. Ymhlith yr ymatebwyr a gefnogodd hyn, dywedodd rhai y byddai'r darpariaethau rheoleiddio yn darparu eglurder a chysondeb i gefnogi gweithredu'r cynllun yn effeithiol. O'r ymatebion a soniodd yn benodol am y gyfundrefn gosbau (chwe ymateb), roedd safbwyntiau cymysg o ran defnyddio'r gyfundrefn gosbau bresennol. Roedd y rhan fwyaf o randdeiliaid a soniodd am hyn yn cefnogi defnyddio'r gyfundrefn cosbau bresennol, ond dywedodd rhai nad oedd y rhain yn ddigon uchel.

Yn gyffredinol, roedd cefnogaeth i'r cynnig i neilltuo gweithredwyr morwrol i reoleiddwyr CMA y DU yn seiliedig ar leoliad eu swyddfa gofrestredig neu fan preswylio. Roedd rhai ymatebion wedi codi pryderon na fyddai gan reoleiddwyr ddigon o adnoddau i ymgymryd â rheoleiddio'r

[9]Ar gyfer Lloegr, Asiantaeth yr Amgylchedd yw'r rheoleiddiwr. Ar gyfer Gogledd Iwerddon, Asiantaeth yr Amgylchedd Gogledd Iwerddon yw'r rheoleiddiwr. Ar gyfer yr Alban, Asiantaeth Diogelu Amgylchedd yr Alban yw'r rheoleiddiwr. Ar gyfer Cymru, Cyfoeth Naturiol Cymru yw'r rheoleiddiwr.

sector morwrol. Galwodd un cyfranogwr hefyd am un rheoleiddiwr yn unig ar gyfer y gyfundrefn forwrol ac awgrymodd y gallai'r Asiantaeth Forwrol a Gwylwyr y Glannau wneud y gwaith hwn.

**Ymateb yr Awdurdod**

O ystyried y penderfyniad i ehangu CMA y DU i'r sector morwrol o 1 Gorffennaf 2026, fel y nodwyd ar ddechrau'r Ymateb Awdurdod hwn, bydd blwyddyn gyntaf y cynllun yn rhedeg rhwng 1 Gorffennaf 2026 a 31 Rhagfyr 2026. Bydd pob blwyddyn y cynllun wedi hynny yn rhedeg rhwng 1 Ionawr a 31 Rhagfyr.

Mae'r Awdurdod wedi ystyried ymatebion rhanddeiliaid ac yn cydnabod bod rhanddeiliaid wedi galw ar i ddyddiadau cau CMA y DU gyd-fynd â dyddiadau cau CMA yr UE, yn enwedig dyddiad cau ildio'r UE sef 30 Medi, yn hytrach na 30 Ebrill bob blwyddyn.

Fodd bynnag, bydd yr Awdurdod yn bwrw ymlaen â'r sefyllfa arfaethedig a fydd yn golygu bod y darpariaethau rheoleiddio arfaethedig, gan gynnwys y dyddiadau cydymffurfio, yn cyd-fynd â gweddill CMA y DU. Mae'n bwysig bod pawb sy'n cymryd rhan yn CMA y DU yn ddarostyngedig i'r un rheolau. Rydym yn cymryd rhan mewn monitro a gwerthuso'r cynllun ac nid yw'r dyddiadau cydymffurfio wedi'u codi fel mater ar gyfer gweithredu'r cynllun. Rydym yn cydnabod yr adborth ynghylch y ffenestr un mis rhwng adrodd a dyddiadau cau ildio. Rydym yn nodi y gellir prynu lwfansau trwy arwerthiannau, neu ar y farchnad eilaidd trwy gydol y flwyddyn, sy'n golygu y gall gweithredwyr ddewis prynu lwfansau ar unrhyw adeg yn ystod y flwyddyn wrth baratoi ar gyfer ildio.

Rydym yn cydnabod y cafwyd cefnogaeth eang yn gyffredinol o blaid cyd-fynd â CMA y DU ar y meysydd penodol eraill a grybwyllir yn y cwestiwn. Felly, rydym yn bwriadu bwrw ymlaen â'r cynigion yn yr ymgynghoriad blaenorol, gan gynnwys y gofyniad i wneud cais am gynllun monitro allyriadau, cymhwyso cyfundrefn gosbau CMA y DU a'r dull arfaethedig ar gyfer neilltuo rheoleiddwyr. Ar yr olaf, rydym hefyd yn cydnabod yr adborth gan randdeiliaid y gallai rhestr gyhoeddedig o weithredwyr a'u rheoleiddiwr perthnasol fod yn ddefnyddiol, yn enwedig o safbwynt dilysydd. Rydym yn archwilio'r posibilrwydd o wneud hyn a byddwn yn nodi mwy o fanylion maes o law.

# Gofynion Monitro, Adrodd a Dilysu

**Crynodeb o Gynigion yr Ymgynghoriad**

Gwnaethom amlinellu ein bwriad i ddefnyddio cyfundrefn bresennol MRV y DU[10] fel sail y gofynion MRV ar gyfer CMA y DU, ond gan wyro mewn pum maes cyffredinol o'r gyfundrefn bresennol honno.

Y cyntaf o'r rhain yw y byddai angen i gwmpas gofynion MRV CMA y DU fod yn ehangach na chyfundrefn MRV y DU i gynnwys gweithgareddau, teithiau a llongau morwrol sydd yng nghwmpas CMA y DU. Felly, rydym yn bwriadu cynnwys allyriadau wrth angorfa yn y DU ar

[10]Sefydlwyd gan Reoliad yr UE (Rheoliad (UE) 2015/757), cadwyd mewn cyfraith ddomestig o dan Ddeddf yr UE (Ymadael) 2018, yn amodol ar ddiwygiadau sydd eu hangen i'w gwneud yn weithredol o fewn cyd-destun y DU yn unig. Am ragor o fanylion am y ddeddfwriaeth berthnasol a gweithrediad cyfredol Monitro, Adrodd a Dilysu'r DU, gweler nodyn cyfarwyddyd MIN 669 (M+F) Gwelliant 1 – Adrodd data allyriadau yng nghyfundrefn Monitro, Adrodd a Dilysu'r DU – https://www.gov.uk/government/publications/min-669-mf-amendment-1-reporting-emissions-data-into-the-uk-mrv-regime/min-669-mf-amendment-1-reporting-emissions-data-into-the-uk-mrv-regime.

gyfer llongau sy'n cyrraedd ac sy'n gadael y DU ar deithiau rhyngwladol yng ngofynion MRV CMA y DU[11]. Bydd gofynion MRV CMA y DU hefyd yn gymwys i longau a symudiadau llongau nad ydynt at ddiben cludo cargo neu deithwyr, gan nad yw'r rhain ar hyn o bryd yng nghwmpas cyfundrefn MRV y DU.

Yn ail, rydym yn cynnig cynnwys allyriadau methan ac ocsid nitrus o weithgarwch morwrol o fewn gofynion MRV CMA y DU.

Yn drydydd, rydym yn bwriadu i ofynion MRV CMA y DU gyd-fynd â'r pwynt rhwymedigaeth arfaethedig ar gyfer CMA y DU, a drafodir mewn adran ddiweddarach o'r ddogfen hon.

Yn bedwerydd, bydd ymdrin â rheoleiddio allyriadau o longau bellach yn digwydd o fewn fframwaith CMA y DU, er enghraifft, bydd rheoleiddwyr yn cymeradwyo cynlluniau monitro allyriadau yn hytrach na dilyswyr achrededig. Rydym hefyd yn bwriadu y bydd cynllun monitro allyriadau ac adroddiad allyriadau blynyddol yn ofynnol fesul gweithredwr, yn hytrach na fesul llong. Gwnaethom hefyd gynnig dileu'r gofyniad am Ddogfen Cydymffurfio (DoC) ar gyfer gofynion MRV CMA y DU.

Gwnaethom ymgynghori ar y ffordd orau o gyfrif am y defnydd o fiodanwyddau a thanwyddau cynaliadwy o fewn CMA y DU, ac a ddylid defnyddio dull cylch bywyd (neu *well-to-wake*, WtW)[12] ar gyfer tanwydd morwrol.

Yn olaf, fe wnaethom gynnig y dylid gwneud y newidiadau a amlinellwyd gennym i ofynion MRV CMA y DU i gyfundrefn MRV y DU hefyd, er mwyn symleiddio adrodd ar draws y diwydiant.

**Cwestiynau**

26. Ydych chi'n cytuno y dylem ddefnyddio cyfundrefn Monitro, Adrodd a Dilysu'r DU fel sail ar gyfer CMA y DU, gyda gwyriadau at ddibenion gofynion Monitro, Adrodd a Dilysu CMA y DU fel yr amlinellir? (Ydw/Nac ydw) Esboniwch eich ymateb, gan roi tystiolaeth os yw hynny'n bosibl.

27. Ydych chi'n cytuno y dylai cymeradwyo cynlluniau monitro ar gyfer y sector morwrol fod yn unol â phrosesau CMA presennol y DU? (Ydw/Nac ydw) Esboniwch eich ymateb, gan roi tystiolaeth os yw hynny'n bosibl.

28. Ydych chi'n cytuno y dylem ddileu'r gofyniad am Ddogfen Gydymffurfiaeth o ofynion Monitro, Adrodd a Dilysu CMA y DU? (Ydw/Nac ydw) Esboniwch eich ymateb, gan roi tystiolaeth os yw hynny'n bosibl.

29. Pa un yw'r ffordd orau i ni roi cyfrif am fiodanwydd a thanwydd cynaliadwy eraill a ddefnyddir yn y sector morwrol yn y cynllun? Pa un yw'r ffordd orau i ni allu ystyried allyriadau cylch bywyd ar gyfer tanwydd a ddefnyddir yn y sector morwrol yn y cynllun? Esboniwch eich ymateb, gan roi tystiolaeth os yw hynny'n bosibl.

[11]Mae teithiau rhwng y DU a gwledydd nad ydynt yn yr Ardal Economaidd Ewropeaidd, gan gynnwys yr allyriadau mewn porthladdoedd cysylltiedig, eisoes wedi'u dal o fewn cynllun MRV y DU.

[12]Mae allyriadau cylch bywyd yn gyfanswm yr a) allyriadau nwyon tŷ gwydr sy'n cael eu cynhyrchu trwy weithredu llongau, a elwir hefyd yn allyriadau *Tank-to-Wake*; a'r b) allyriadau nwyon tŷ gwydr o gynhyrchu a dosbarthu'r tanwydd a ffynonellau ynni eraill (e.e. trydan) sy'n cael eu defnyddio gan longau, a elwir hefyd yn allyriadau *Well-to-Tank*.

30. Pa ffactorau allyriadau nwyon tŷ gwydr ar gyfer pob tanwydd a ffynhonnell ynni morwrol fyddai'n fwyaf priodol i'w defnyddio o dan y cynllun? A yw'r ffactorau allyriadau hyn yn addas i'r diben ar gyfer cyfrifo cylch bywyd allyriadau CO2e?
31. Ydych chi'n cytuno y dylid gwneud y newidiadau a amlinellir uchod i drefn Monitro, Adrodd a Dilysu bresennol y DU hefyd? (Ydw/Nac ydw) Esboniwch eich ymateb, gan roi tystiolaeth os yw hynny'n bosibl.

**Crynodeb o'r Ymatebion i'r Ymgynghoriad**

Ar gyfer cwestiwn 26, roedd 33 (75%) o'r 44 ymatebydd yn cefnogi'r egwyddor y byddai cyfundrefn MRV y DU yn sail gyffredinol ar gyfer gofynion MRV CMA y DU. Roedd chwech (14%) yn anghytuno ac roedd pump (11%) yn ansicr. O'r sawl a'i cefnogodd, nododd sawl un bwysigrwydd bod yn gyson â CMA yr UE a MRV yr UE er mwyn osgoi baich gweinyddol. Galwodd nifer fach o randdeiliaid am eglurder ynghylch pa system adrodd fyddai'n cael ei defnyddio i gydymffurfio â CMA y DU, gyda rhai yn galw am adrodd cyfun ar draws y ddau gynllun.

Roedd rhai ymatebion yn sôn yn benodol am gefnogaeth o blaid rhai o'r gwyriadau o CMA y DU fel yr amlinellwyd yn yr ymgynghoriad. Yn benodol, cefnogodd sawl rhanddeiliad ehangu cwmpas MRV y DU i gyd-fynd â chwmpas arfaethedig CMA y DU. Roedd cefnogaeth hefyd i'r gwelliant i hwyluso cynnwys methan ac ocsid nitrus (a drafodwyd yn gynharach yn yr Ymateb hwn) a chefnogaeth o blaid cyd-fynd â'r pwynt rhwymedigaeth.

Roedd 41 o ymatebion i gwestiwn 27, ar symud y cyfrifoldeb am gymeradwyo cynlluniau monitro allyriadau i reoleiddwyr CMA y DU yn hytrach na dilyswyr. Cytunodd 25 (61%) o ymatebwyr y dylai cymeradwyaeth cynlluniau monitro allyriadau fod yn unol â gweddill CMA y DU. Roedd 12 (29%) yn anghytuno, gan godi pryderon ynghylch capasiti ac arbenigedd rheoleiddwyr i gymeradwyo'r cynlluniau monitro allyriadau, gan gynnwys y gallai hyn arwain at oedi a chynyddu costau. Nododd eraill fod y sector wedi dod i arfer â'r drefn bod y dilysydd yn ymgymryd â'r gweithgaredd hwn, felly gallai parhau â'r dull hwn fod yn symlach. Roedd pedwar (10%) o ymatebwyr hefyd yn ansicr yn eu hateb.

Ymatebodd cyfanswm o 33 o'r rhai yr ymgynghorwyd â nhw i gwestiwn 28, ar y cynnig i ddileu'r gofyniad am DoC o ofynion MRV CMA y DU. Roedd 20 (61%) o ymatebwyr yn anghytuno â'r cynnig hwn am amrywiaeth o resymau. Pwysleisiodd rhai rhanddeiliaid fod y DoC yn hanfodol i ddangos cydymffurfiaeth â gofyniad rheoleiddio y gwasanaeth Rheoli Porthladd Gwladol. Nododd eraill y gallai hyn roi gweithredwyr llongau'r DU sy'n masnachu'n rhyngwladol dan anfantais wrth fynd i mewn i borthladdoedd y tu allan i'r DU, neu y gallai fod angen DoC fel rhan o'r broses ddiwydrwydd dyladwy wrth werthu a phrynu llongau. O'r rhanddeiliaid hynny a gytunodd gyda dileu'r DoC, gwnaeth y rhan fwyaf hynny ar sail symlrwydd, lleihau'r baich rheoleiddio, a bod yn gyson â'r sectorau eraill sydd wedi'u cynnwys yn CMA y DU (nad oes angen Dogfen Cydymffurfio arnynt).

Roedd cwestiwn 29 yn ymwneud â'r dull o ymdrin â biodanwyddau a thanwyddau cynaliadwy eraill, gan gynnwys sut orau i ystyried allyriadau cylch bywyd ar gyfer pob tanwydd morwrol. Ymatebodd 45 o randdeiliaid i'r cwestiwn hwn. Nid oedd y cwestiwn hwn yn gofyn a oedd rhanddeiliaid yn cytuno neu'n anghytuno â'r cynigion, felly nid yw'n bosibl dadansoddi ymatebion yn y modd hwn. Roedd y themâu mwyaf cyffredin a godwyd yn yr ymatebion yn cynnwys y dylai fod cysondeb â dull CMA yr UE o osod cyfradd dreth o sero ar y tanwyddau hyn (soniwyd am hyn mewn 19 ymateb), ac y dylid trin tanwyddau cynaliadwy ar sail asesu cylch bywyd (soniwyd am hyn mewn 19 ymateb). Soniodd llawer o ymatebion hefyd am bwysigrwydd bod y dull yn gyson â chanllawiau IMO a safonau rhyngwladol. Er y gofynnwyd

yn benodol am ffactorau allyriadau yn y cwestiwn nesaf, soniodd rhai ymatebwyr amdanynt yn eu hymateb i'r cwestiwn hwn. Roedd y rhan fwyaf o'r rhai a soniodd am hyn yn cefnogi'r defnydd o ffactorau allyriadau safonol.

Cawsom 37 o ymatebion i gwestiwn 30, ar ffactorau allyriadau. Eto, nid yw dadansoddiad o’r ymatebion wedi'i gynnwys, gan nad oedd y cwestiwn hwn yn gofyn a oedd rhanddeiliaid yn cytuno neu'n anghytuno â'r cynnig. Y brif thema yn yr ymatebion oedd pwysigrwydd bod yn gyson â CMA yr UE a'r IMO i sicrhau symlrwydd, yn enwedig gan fod ffactorau a safonau’r allyriadau hyn eisoes wedi’u cydnabod yn rhyngwladol. Roedd rhai ymatebion yn galw am adolygiadau rheolaidd o'r ffactorau allyriadau, gan gydnabod bod hwn yn faes sy'n datblygu'n gyflym o ystyried datblygiad tanwyddau newydd.

Yn olaf, derbyniwyd 26 o ymatebion i gwestiwn 31 ynghylch a ddylid gwneud y newidiadau a amlinellwyd yn yr ymgynghoriad i gyfundrefn MRV y DU hefyd. Cytunodd 19 (73%) o’r ymatebwyr y dylid gwneud y newidiadau hyn i MRV y DU, gyda dau (8%) yn anghytuno a phump (19%) yn ansicr. O'r sawl a gytunodd â'r cynnig, nododd llawer ei bod yn ddefnyddiol i'r ddau gynllun fod mor debyg â phosibl i leihau’r baich adrodd. Dywedodd rhai mai cysondeb â dull yr UE oedd eu rheswm dros gefnogi'r cynnig. Roedd rhai o'r ymatebwyr a anghytunodd yn gwneud hynny ar y sail nad oeddent yn cytuno â rhai o'r newidiadau yr ydym wedi'u cynnig at ddibenion CMA y DU, megis dileu'r DoC.

**Ymateb yr Awdurdod**

Mae'r Awdurdod wedi penderfynu bwrw ymlaen â'r cynnig i ddefnyddio egwyddorion cyfundrefn MRV y DU fel sail ar gyfer CMA y DU, gyda gwyriadau at ddiben gofynion MRV CMA y DU, fel yr amlinellir yn y crynodeb o'r cynigion a'r penderfyniadau a nodir isod. Fodd bynnag, i fod yn glir, bydd gofynion MRV CMA y DU ar wahân i gyfundrefn MRV y DU.

Er nad yw o fewn cylch gorchwyl Awdurdod CMA y DU, rydym yn cydnabod bod rhanddeiliaid yn galw am eglurder ar ddyfodol cyfundrefn MRV y DU. Mae'r Adran Drafnidiaeth yn cydnabod yr adborth hwn a'r galwadau am eglurder ar ddyfodol cyfundrefn MRV y DU a bydd yn nodi rhagor o wybodaeth am hyn maes o law.

O ran y gwyriadau penodol a gynigiwyd yn yr ymgynghoriad, rydym yn bwriadu y bydd gofynion MRV CMA y DU yn cyd-fynd â chwmpas arfaethedig terfynol y cynllun. Fodd bynnag, bydd y cwmpas terfynol, gan gynnwys unrhyw eithriadau a rhanddirymiadau pellach o'r cynllun, yn cael ei amlinellu yn Ymateb llawn yr Awdurdod i'r ymgynghoriad hwn.

Ar hyn o bryd, gallwn gadarnhau y bydd gofynion MRV CMA y DU yn cynnwys monitro ac adrodd ar allyriadau mewn porthladdoedd, boed yn teithio yn ddomestig neu'n rhyngwladol, yn ogystal â monitro allyriadau methan ac ocsid nitrus, yn unol â'r penderfyniadau a amlinellir uchod.

Cytunodd bron i ddwy ran o dair o'r rhanddeiliaid â'n cynnig y dylai cynlluniau monitro allyriadau gael eu cymeradwyo gan reoleiddiwr CMA y DU. Rydym wedi penderfynu bwrw ymlaen â hyn. Rydym yn cydnabod barn rhai rhanddeiliaid y dylai hyn gael ei wneud gan ddilyswyr, a fyddai'n gwyro oddi wrth y broses ar gyfer sectorau eraill CMA y DU. Fodd bynnag, rydym wedi penderfynu ar ddull safonedig. Byddwn hefyd yn gofyn am un cynllun monitro allyriadau ac adroddiad allyriadau blynyddol (AER) fesul gweithredwr, ac nid fesul llong. Rydym yn nodi bod y cynllun monitro allyriadau yn ei gwneud yn ofynnol i'r llongau hynny lle cynhelir gweithgareddau morwrol gael eu rhestru ynghyd â’r allyriadau o bob llong yn ogystal ag adrodd ar ddata cyfanredol yn yr AER.

Ar y cynnig i beidio â gofyn am Ddogfen Gydymffurfio mwyach at ddibenion MRV y DU, rydym yn cydnabod cryfder barn rhanddeiliaid ar y cynnig hwn. Felly, mae'r Awdurdod yn dal i ystyried ei safbwynt terfynol ar y cynnig hwn a bydd yn nodi rhagor o wybodaeth yn Ymateb llawn yr Awdurdod i'r ymgynghoriad hwn.

Rydym hefyd yn gwerthfawrogi'r adborth manwl ar drin biodanwyddau a thanwyddau cynaliadwy eraill. Rydym yn cydnabod pwysigrwydd sicrhau bod tanwyddau o'r fath yn cael eu cydnabod ar gyfer y sector morwrol, fel yn sectorau presennol CMA y DU. Felly, rydym yn bwriadu cymell defnyddio tanwyddau cynaliadwy o darddiad biolegol ac anfiolegol trwy osod cyfradd dreth o sero arnynt o ddechrau'r cynllun. Byddwn yn darparu rhagor o fanylion ar drin tanwyddau cynaliadwy, ac ar sut i wneud Hawliad Lleihau Allyriadau, mewn canllawiau. Byddwn yn ystyried allyriadau sy'n deillio o bob tanwydd morwrol ar sail *Tank-to-Wake* o ddechrau'r cynllun. Roedd cefnogaeth gref hefyd o blaid defnyddio ffactorau allyriadau yn unol â safonau'r diwydiant. Felly, rydym hefyd yn cadarnhau'r defnydd o ffactorau allyriadau safonol ar gyfer tanwyddau confensiynol yn unol â gweddill CMA y DU. Bydd rhagor o fanylion yn dilyn mewn canllawiau.

Rydym yn cydnabod bod llawer o randdeiliaid wedi nodi pwysigrwydd dull asesu cylch bywyd neu *Well-to-Wake* (WtW) ar gyfer tanwyddau cynaliadwy, a bod llawer yn cefnogi cyd-fynd â chanllawiau'r IMO yn y meysydd hyn. Cytunodd yr IMO destun cyfreithiol drafft ar gyfer rheoliad newydd i leihau'r allyriadau nwyon tŷ gwydr o longau rhyngwladol ym Mhwyllgor Diogelu'r Amgylchedd Morol 83. Bydd y rheoliad hwn yn ymgorffori dull ar gyfer asesu dwysedd nwyon tŷ gwydr cylch bywyd (LCA). Gan nad yw fframwaith LCA WtW IMO wedi'i ddatblygu'n ddigonol eto, mae'r Awdurdod o'r farn y byddai'n gynamserol symud i asesiad cylch bywyd ar hyn o bryd ond mae'n cydnabod manteision gwneud hynny yn y dyfodol. Byddwn felly yn parhau i adolygu cynnydd fframwaith IMO ac ystyried adolygu ein dull yn y dyfodol.

## Pwynt rhwymedigaeth

**Crynodeb o Gynigion yr Ymgynghoriad**

Cynigiodd yr Awdurdod y dylid cymhwyso'r rhwymedigaeth i gydymffurfio â CMA y DU i'r Perchennog Cofrestredig, ac eithrio lle dirprwywyd y cyfrifoldeb hwnnw gan gytundeb cyfreithiol rhwymol i'r endid sydd wedi cymryd cyfrifoldeb oddi ar y Perchennog Cofrestredig am weithrediad y llong a'r dyletswyddau a osodir gan y Cod Rheoli Diogelwch Rhyngwladol ("y Cwmni ISM").

Pan fo'r cyfrifoldeb wedi'i ddirprwyo i'r Cwmni ISM, rydym yn cynnig y dylid rhoi hysbysiad er boddhad y rheoleiddiwr i ddangos bod y Cwmni ISM wedi cymryd y cyfrifoldeb oddi ar y Perchennog Cofrestredig am gydymffurfio â CMA y DU.

Gwnaethom hefyd gynnig, lle na dderbyniwyd tystiolaeth o'r fath er boddhad y rheoleiddiwr perthnasol, y byddai'r rhwymedigaethau yn cael eu cymhwyso yn ddiofyn i'r Perchennog Cofrestredig.

Gofynnwyd am farn ar y dull hwn, yn ogystal â barn ynghylch a allai dull amgen fod yn well. Gwnaethom gyfeirio'n benodol at y dulliau amgen posibl canlynol:

- Dull o gymhwyso'r rhwymedigaeth i gydymffurfio â CMA y DU i'r Cwmni ISM yn unig; neu

- Ddull o gymhwyso'r rhwymedigaeth i gydymffurfio â CMA y DU i'r Cwmni ISM, ac eithrio lle mae cytundeb cyfreithiol rhwymol yn darparu bod y Perchennog Cofrestredig yn cadw'r cyfrifoldeb i gydymffurfio â CMA y DU.

Ar fater adennill costau, gwnaethom nodi nad ydym yn bwriadu gorfodi adennill costau oherwydd deallwn bydd y partïon contractiol yn gallu cytuno ar hawl yr endid â chyfrifoldeb i adennill costau, yn ogystal ag agweddau ymarferol ar adennill y costau hynny, trwy gynnwys cymalau mewn cytundebau contractiol ar gyfrifoldebau masnachu allyriadau.

**Cwestiynau**

32. Ydych chi'n cytuno â'r dull arfaethedig o ddiffinio'r endid â chyfrifoldeb? (Ydw/Nag ydw) Esboniwch eich ymateb, gan gynnwys eich barn ar ofynion dirprwyo cyfrifoldeb, ac ar y sefyllfa ddiofyn arfaethedig lle nad yw'r gofynion hynny'n cael eu bodloni. Os nad ydych yn cytuno, amlinellwch y dull amgen a ffefrir gennych.

33. Ydych chi'n cytuno â'n dealltwriaeth o'r gallu i'r endid â chyfrifoldeb geisio hawl i adennill costau? (Ydw/Nag ydw) Esboniwch eich ymateb, gan gynnwys i ba raddau y byddech yn disgwyl i drefniadau contractiol gael eu hadolygu.

**Crynodeb o'r Ymatebion i'r Ymgynghoriad**

Roedd 25 o ymatebwyr i gwestiwn 32 am y diffiniad o'r Gweithredwr Morwrol.

Ymatebodd 18 (72%) o'r rhai yr ymgynghorwyd â nhw o blaid y dull arfaethedig. Yn eu cefnogaeth o blaid y dull arfaethedig, cyfeiriodd 12 at bwysigrwydd cyd-fynd â CMA yr EU, a chyfeiriodd chwech at fantais lleihau baich gweinyddol y gweithredwyr. Nododd dau ymatebydd fod dull CMA yr UE bellach wedi'i ddeall yn gyffredinol gan y sector.

Roedd saith (28%) o'r rhai yr ymgynghorwyd â nhw yn anghytuno â'r dull arfaethedig. Cyfeiriodd dau ymatebydd at heriau sy'n ymwneud ag ymgysylltu â Pherchnogion Cofrestredig tramor, a allai mewn llawer o achosion fod yn Endid Diben Arbennig (SPE) a sefydlwyd ar gyfer ariannu pryniant llong ond nad yw'n cymryd fawr o ran mewn rheoli neu weithredu llong.

Ar fater dulliau amgen, cefnogwyd cymhwyso'r rhwymedigaethau i'r Cwmni ISM yn unig gan ddau ymatebydd, a chefnogwyd eu cymhwyso i'r Perchennog Cofrestredig yn unig, ac i'r siartrwr, gan un ymatebydd yr un. Galwodd un ymatebydd hefyd i'r sawl sy'n siartro cychod y gellir eu llogi heb griw allu cymryd cyfrifoldeb, ni waeth mai'r Cwmni ISM ydoedd.

Roedd 24 o ymatebwyr i gwestiwn 33 am y potensial ar gyfer adennill costau.

Cytunodd 17 (71%) o'r rhai yr ymgynghorwyd â nhw â'n dealltwriaeth o'r potensial ar gyfer adennill costau. Nododd pum ymatebydd ei bod eisoes yn gyffredin yn y sector i gytundebau contractiol ddarparu ar gyfer hawl i adennill costau, ac amlinellu agweddau ymarferol ar adennill y costau hynny. Cyfeiriodd dau ymatebydd at arferion o'r fath mewn perthynas ag adennill costau CMA yr UE.

Cytunodd saith (29%) o'r rhai yr ymgynghorwyd â nhw â'n dealltwriaeth o'r potensial ar gyfer adennill costau. Galwodd pedwar ymatebydd am ddarpariaeth ddeddfwriaethol i roi hawl i Weithredwyr Morwrol adennill costau CMA y DU, a galwodd un ymatebydd iddi fod orfodol eu trosglwyddo.

**Ymateb yr Awdurdod**

Y Perchennog Cofrestredig fydd y Gweithredwr Morwrol mewn perthynas â llong, ac eithrio pan fo'r Cwmni ISM wedi ymrwymo i gytundeb cyfreithiol rhwymol gyda'r Perchennog Cofrestredig i gymryd y cyfrifoldeb am gydymffurfio â rhwymedigaethau CMA y DU yn lle hynny.

Pan fo Cwmni ISM wedi cymryd y cyfrifoldeb oddi ar Berchennog Cofrestredig am gydymffurfio â CMA y DU mewn perthynas ag un neu fwy o longau, bydd yn ofynnol cael tystiolaeth, er boddhad y rheoleiddiwr, o'r cytundeb sydd ar waith rhwng y ddau endid hynny.

Pan nad yw'r person sydd wedi cyflawni gweithgaredd morwrol yn hysbys, gan gynnwys pan na allai'r rheoleiddiwr fodloni bod y Cwmni ISM wedi cymryd cyfrifoldeb yn briodol am gydymffurfio â CMA y DU mewn perthynas â'r llong berthnasol, ystyrir bod y Perchennog Cofrestredig wedi cyflawni'r gweithgaredd morwrol hwnnw, ac felly mai ef yw'r Gweithredwr Morwrol mewn perthynas â'r llong honno.

Rydym yn deall o ymgysylltu â rhanddeiliaid, gan gynnwys drwy'r ymatebion i'r ymgynghoriad uchod, bod y dull hwn yn cael ei gymeradwyo gan y sector. Rydym yn cydnabod bod y dull hwn yn gyson â'r dull a fabwysiadwyd gan CMA yr UE, y mae'r diwydiant yn fwyfwy cyfarwydd ag ef ar ôl iddo gael ei weithredu. Felly, rydym yn fodlon y bydd y dull hwn yn lliniaru baich gweinyddol ychwanegol i'r mwyafrif o weithredwyr a fydd yn cymryd rhan yn y ddau gynllun, y bydd llawer ohonynt hefyd â chyfrifoldebau cytundebol sefydledig mewn perthynas â masnachu allyriadau.

Rydym yn deall y bydd y dull hwn hefyd yn rhoi hyblygrwydd i'r rhanddeiliaid perthnasol benderfynu, ar gyfer pob llong, pa endid sydd yn y sefyllfa orau i gydymffurfio â rhwymedigaethau CMA y DU. Er enghraifft, bydd yn galluogi'r endid sydd â'r cyfrifoldeb presennol am gydymffurfio â CMA yr UE a MRV yr UE, a/neu System Casglu Data Defnydd Olew Tanwydd (DCS) yr IMO, i gymryd y cyfrifoldeb hefyd am gydymffurfio â rhwymedigaethau CMA y DU.

Deallwn hefyd y bydd y dull hwn mewn sawl achos yn cymhwyso rhwymedigaethau CMA y DU i'r endid sydd fel arfer yn gyfrifol am benderfyniadau gweithredol sy'n effeithio ar allyriadau nwyon tŷ gwydr llong (e.e., dewis cargo, llwybr a chyflymder).

Rydym yn nodi bod rhai ymatebwyr yn galw am ddarpariaeth mewn deddfwriaeth i'r Gweithredwr Morwrol gael hawl i adennill y costau sy'n gysylltiedig â chydymffurfio â CMA y DU gan yr endid sy'n gyfrifol am benderfyniadau gweithredol sy'n effeithio ar allyriadau llong, lle mae'r ddau endid hynny'n wahanol.

Fodd bynnag, nid yw'r Awdurdod yn bwriadu darparu hawl ddeddfwriaethol i adennill costau cydymffurfio â CMA y DU. Mae hyn oherwydd yn ôl yr hyn a ddeallwn, gan gynnwys dealltwriaeth sy'n seiliedig ar adborth yr ymgynghoriad, bydd y partïon contractiol yn gallu cytuno ar yr hawl honno i adennill costau cydymffurfio fel mater o arfer masnachol safonol. Rydym yn disgwyl y bydd yr hawl hon, yn ogystal ag agweddau ymarferol ar adennill costau, yn cael eu hystyried trwy gynnwys cymalau mewn cytundebau contractiol ar gyfrifoldebau masnachu allyriadau.

# Y Camau Nesaf

Byddwn yn cyhoeddi ymateb llawn i'r holl gwestiynau sydd wedi'u cynnwys yn ymgynghoriad *Ehangu Cwmpas Cynllun Masnachu Allyriadau'r DU: Morwrol* maes o law.

Mae'r ymgynghoriad hwn ar gael yn: https://www.gov.uk/government/consultations/uk-ets-scope-expansion-maritime-sector

Os oes angen fersiwn o'r ddogfen hon arnoch mewn fformat mwy hygyrch, anfonwch e-bost at alt.formats@energysecurity.gov.uk. Dywedwch wrthym ba fformat sydd ei angen arnoch. Bydd yn ein helpu os dywedwch pa dechnoleg gynorthwyol rydych yn ei ddefnyddio.